wq35.5-226

# GALAR-GAN,

AR FARWOLAETH Y DIWEDDAR

# BARCH. THOMAS WILLIAMS,

GWEINIDOG YR EFENGYL YN

## BETHESDA, BRO MORGANWG,

Yr hwn a fu Farw, TACHWEDD 23, 1844,

*YN Y FLWYDDYN* 84 *O'I OED.*

---


Gan MORGAN MORGAN,

BETHESDA.


---

AT YR HYN YR YCHWANEGWYD,

## GWAEDD I AMERICA,

MEWN LLYTHYR I GAEREFROG NEWYDD

(NEW YORK,)

*At MARGARET WATKIN, a aeth yno yn Hydref,* 1818, *yr hon fuasai fwy nag ugain mlynedd yn aelod yn Bethesda,*

O WAITH GWRTHDDRYCH Y FARWNAD HON.

Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed teg, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau: ac efe a gasglwyd at ei bobl. Gen. 25. 8.

Hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist. Eph. 4. 13.


MERTHYR TYDFIL:

ARGRAFFWYD GAN REES LEWIS HEOL-FAWR.

---

1845.


15610

X205 317706

# GALAR-GAN.

1. Dacw un o gedyrn Israel,
   Heddyw wedi myn'd i lawr,
Haul ei fywyd a fachludodd:
   Ar ei ol mae galar mawr;
Blaenor enwog yn y fyddin,
   Tirion Dad yn eglwys Dduw,
Ffyddlon genad dros yr Iesu,
   Wedi 'i dori o dir y byw.

2. Williams hawddgar ymadawodd,
   Do, fe hunodd ef mewn hedd;
Rho'w'd ei oeraidd gorph i orwedd
   Obry yn y tawel fedd;
Ond ei enaid ddygwyd adre
   I'r dedwyddwch pur didrai,
Gan angylion y gogoniant,
   At yr ail-enedig rai.

3. Galwad foreu gadd i'r winllan,
   Fe fu ynddi amser hir,
Dyfal chwiliodd, dwfn gloddiodd,
   Am gael gafael ar y gwir;
Gwir a gafodd, gwir gyhoeddodd,
   Arno pwysodd ddyddiau 'i oes,
Yn ei gol aeth dros y terfyn,
   I foli 'r gŵr fu ar y groes.

4. Deg a thrigain o flynyddau,
   Bu 'ngwasanaeth Brenin nef,
Pedair rhagor, nol y cyfrif,
   A dderbyniais ganddo ef;
Yn ddeng-mlwydd-oed y daeth i'r eglwys,
   Fe fu 'n ffyddlon ymhob man,
Ei ddiwrnod a derfynodd,
   Heddyw safodd yn ei ran.

5. Deg a deugain o flynyddoedd,
   Bu 'n weinidog eglwys Dduw,
Ymarweddodd mewn cysondeb,
   A'i swydd bwysfawr tra fu byw ;
Gair y bywyd a bregethodd,
   I golledig anwir fyd,
Nid ataliodd, ond traddododd
   Bethau buddiol ar bob pryd.

6. Fel cymydog, roedd gariadus,
   Pawb o'i gwmpas dystia'i glôd,
Bu 'n haelionus i'r tylodion,
   Ei dynerach 'doedd yn bod ;
Yr amddifaid a ddiwallai,
   Tlawd a rheidus gaffai le,
Cwyn y weddw gai dderbyniad,
   Yn ei fynwes gynes e.

7. Mewn defnyddiau cyfeillgarwch,
   Gwn ei fod yn uchel iawn,
'Roedd symlrwydd a doethineb,
   Yn ei eiriau ef yn llawn ;
Tangnefeddus oedd ei dymer,
   Gwneud daioni oedd ei nôd,
Cadw cariad oedd ei amcan,
   Tra bu yma îs y rhod.

8. Y mae cofio 'r oriau cyfain,
   Dreuliais gyda 'm cyfaill cu,

Yn creu hiraeth, yn creu galar,
  Trwm o fewn fy mynwes i;
Ond pa lês i mi hiraethu,
  Pam y byddaf mwy mor ffol,
Pan mae 'n ddigon amlwg i mi,
  Nas gellir galw ddoe yn ol.

9. Gan ei oedran a phob tristwch,
  Yr oedd wedi methu 'n lân
A dod allan gyda 'r fyddin
  Fel y gwelwyd ef o'r bla'n;
Rhai blynyddau bu'n garcharor,
  Gan swyddogion angau du,
Ofni 'i golli, ond er hyny,
  Daeth yr amser, felly bu.

10. Angeu creulon, trwm ei ergyd,
  Gelyn pob dyn wyt erioed,
P 'odd anturiaist daro Williams,
  Un o'r dynion goreu 'n bod;
A oedd neb o'r teulu dynol
  All'sit gym'ryd yn dy gol,
Nad oedd colled mewn un ystyr
  Ar y ddaear ar ei ol.

11. Darfu 'r tymor a derfynwyd,
  Yn yr arfaeth iddo fyw,
Ofer cwyno, gwell yw tewi,
  Yn wyneb dwfn droeon Duw;
Mae ei gynghor byth yn gadarn,
  Ei ewyllys a wna Ef!
Ni chyfnewid yn ei fwriad,
  Er mwyn undyn dan y nef.

12. Trwy holl ddyddiau ei filwriaeth,
  Tra bu yma ar y llawr,
Megis Job, bu 'n dyfal ddisgwyl
  Am y cyfnewidiad mawr;

A phan ddaeth y tymor chwerw,
Yr oedd marw iddo ef,
'N fythol elw, ac nid colled,—
Gado 'r ddaear, cael y nef.

13. Bu 'r saethyddion wrtho 'n chwerw,
Fel i eraill îs y nef,
Ac yn nhŷ ei garedigion,
Trwm yw adrodd, clwyfwyd ef;
Ond gobeithiodd yn yr Arglwydd,
Ymddiriedodd yn ei Dduw,
Ac er pob peth gyfarfyddodd,
Nid ysgogodd tra fu byw.

14. Gallaf ddweud fel d'wedodd yntau,
Am ei hen gydymaith* llon,
Williams mae llythrenau d' enw,
Yn creu hiraeth dan fy mron;
Colli cyfaill mwyn a dyddan,
Oedd o ddoniau 'r nef yn llawn,
Mae yr ergyd wedi clwyfo,
Fy nheimladau yn ddwfn iawn.

15. Mae ei dafod wedi tewi,
Nis gall adrodd geiriau mwy,
Ac mae 'i lygaid wedi pallu,
Ni all graffu ddim yn hwy;
Darfu gobaith am ei weled,
Do, fe ddarfu hyny 'n lan,
Yn ei dŷ nac yn yr Eglwys,
Fel y gwelwyd ef o'r blaen.

16. Mae ei ddwylaw wedi 'u rhwymo,
Yn yr amdo 'n wael ei wedd,
Ac mae 'i gorph yn tawel huno,
Wrth Bethesda, yn ei fedd;

* Y Parch Peter Williams.

Erys yno hyd y borau
  Y dadseinio Udgorn Duw,
Wedi hyny caiff gyfodi,
  Ar ddisglaer wedd ei Brynwr byw.

17. Dryllio'm calon, clwyfo' mynwes
  A wnaeth ergyd angau hy,
Aeth fy hen gydymaith hawddgar
  'Lawr i bridd y ddaear ddu ;
Ond ei enaid a ddiangodd,
  At y dyrfa hardd ei gwedd,
Uwchlaw trallod, poen a gofid,
  Mewn i'r gwynfyd llawn o hedd.

18. Er fod Williams wedi marw,
  Mae'n llefaru'r fynyd hon,
Yn ei Hymnau, a'i Ganiadau
  Dros derfynau Cymru gron ;
Cânt eu derbyn a'u defnyddio,
  Gan y dynion uwcha 'u clod,
Gwerthfawr fyddant gan yr eglwys,
  Yn yr oesau etto i ddod.

19. Fe argraffwyd ei bregethau,
  Yn meddyliau llawer un,
Ni anghofiant ei gynghorion,
  Nes rhoi fynu 'r olaf ffun ;
Crist yn fywyd i bechadur,
  Oedd ei destyn ar bob pryd,
Efengylu oedd ei bleser,
  Tra bu yma yn y byd.

20. Seren oleu, ddisglaer ydoedd,
  Yn ffurfafen eglwys Dduw,
Ffyddlon, didwyll, diargyhoedd,
  Yn ei gylchoedd tra fu byw ;
Er mai yn y bedd yn gorwedd
  Y mae Williams hoff ei ddawn,

Mae ei goffadwriaeth heddyw
'N perarogli 'n hyfryd iawn.

21. Ffarwel wrando ei bregethau,
Melus odiaeth oe'nt i gyd,
Mwy ni chlywir gair o'i enau,
Mae ef heddyw 'n ddigon mud;
Ni chaf mwyach wel'd ei ddwylaw
'N troi dalenau llyfr Duw,
Na chynes gofio yn y cymmun,
Y gŵr fu farw i ni gael byw.

22. Ni fu gofid arnaf unwaith,
Er pan yma gydag e',
Nad oedd hyny fel i minau,
Yn wir ofid iddo fe;
Ffarwel, ffarwel, anwyl Williams,
Ni chaf wel'd eich wyneb mwy,
Rhaid i'm gario 'r baich fy hunan,
Neu gwympo dano 'r fan lle bwy'.

23. O fy mrodyr yn Bethesda,
Sy 'n galaru, yn oer eich llef,
Peidiwn ddwedyd dim yn ynfyd,
Yn erbyn doeth drefniadau 'r nef;
Cofiwn rhaid i ninau 'n fuan,
I wynebu Brenin braw;
Dyddiau 'n bywyd sydd yn darfod,
Ac mae pen ein taith gerllaw.

24. Arglwydd cofia am Bethesda,
Gwna 'th preswylfa yn ein plith,
Onid ydwyt wedi addaw,
Bod i Israel fel y gwlith;
Boed i'th deyrnas ychwanegu,
Llwyddo wnelo Efengyl wen,
Crist yn unig gaffo 'i foli,
Crist ymhob-man fyddo 'n ben.

25. Mae 'm dymuniad idd ei dylwyth,
A adawodd ar i ol,
Gael y rhan ddewisodd Mary,
'Rhan na elwir byth yn ol
Ceiswch nabod Iesu 'n briod,
Megis yntau yn ei ddydd,
Os cewch feddu 'r trysor hyny,
Marw i chwi 'n elw fydd.

26. Mae fy nyddiau bron a gorphen,
Dirwyn mae fy oes i ben,
'Rwy 'n hyderu cwrdd a Williams,
Gyda 'r llu tu fewn i'r llen;
O fewn y wlad dda hyfryd hyny,
Uchlaw gofid poen a braw,
Yn y ddinas berffaith ddedwydd,
Lle mae gwynfyd ar bob llaw.

# GWAEDD I AMERICA.

1 PEGY, Pegy, dywed i mi
O eithafoedd byd yn awr,
Pa'm y ciliaist o Bethesda
Dros y môr a'i donau mawr?
Ai ymofyn dynol wynfyd
Draw'r Atlantic oeddit ti?
Neu ymofyn gwell cyfeillion,
A mwy ffyddlon nag o'em ni?

2 Pa'm y troist dy gefn arnom
Cyn bod rhaid i hyny fod?
Pa'm y cenaist fythol ffarwel
I ni cyn i angeu dd'od?
Bach meddyliais un diwrnod
Cawn i wel'd dy gladdu'n fyw;
Hi rhagluniaeth sy'n teyrnasu,
Eiddo dyn ei ffordd nid yw.

3 Cenais fwy nag ugain mlynedd
Uwch dy ben di aua' a ha',
Oeddwn genyt fel cân cariad,
Hyfryd lais yn canu'n dda:
Wedi'm llafur yn dy wylied,
Wedi'r drafferth oll a'r draul,
P'odd diengaist rhwng fy nwylaw
Draw i dîr machludiad haul?

4 Ce'st dy guro'n ddidrugaredd
Lawer gwaith pan nad oedd raid;
Pan y'th gurent ar yr eingion
Mineu safwn yn dy blaid;
Mi feddyliais na'm gadewit,
Nes gwahanai angeu ni;
Ond er hyny cyn ei ddyfod,
Myn'd a 'ngadael wnaethost ti.

5 Cym'raf addysg, dysged ereill,
Peidiaf—peidied pawb a'r dyn:
Twyll eu gyd yw meibion Adda,
Twyll yw merched Efa'r un;
Y mae hyn yn peri tristwch,
Ond fy nhristwch penaf yw,
Fod fy nghalon oer fy hunan
Mor anffyddlon i fy Nuw.

6 Os aeth byd, a chnawd, a satan,
Dros y cefnfor gydâ thi;
Beth wyt yn Nghaerefrog Newydd
Well nag yma gydâ ni?
Os ŷnt hwy yr ochr yna
Fel y maent yr ochr hyn,
Beth enillaist wrth y drafferth
Fawr a'th boen yn croesi'r llyn?

7 Ar y boreu cyntaf genir
Pob dyn yma yn y byd,
Cnawd a blinder a briodir
Yr un boreu hwnw 'nghyd;
Ni wna myned dros y moroedd,
Na mynyddoedd byd o'r bron,
Wneuthur ysgar byth na thori
Mo'r briodas hynod hon.

8 Cysur oer yw'r cysur hwnw,
'Thal e' ddim am dano sôn,
Cysur nad yw ddim ond hyny,
Newid lle a chadw'r po'n;
Cnawd a byd, a nwydau natur,
Lle bo ni fe ddaw'r rhai hyn,
Dros bob munud hyd ein marw
Hwy'n dilynant bant a bryn.

9 Er i titheu gym'ryd 'adain,
Megys adain boreu wawr,

Myn'd dros foroedd i'r Gorllewin,
Gwn mai'th brofiad yno 'nawr,
Fod y dorchog sarph hedegog
Yno ddigon o dy fla'n,
Ac mae'th siomi ge'st wrth ddysgwyl
Cei ti yno lonydd glan.

10 Bydd yn drist neu bydd yn llawen,
Bydd yn llwm neu ynte'n llawn,
Nid oes genyt mwy na mineu
Ond diwedydd hwyrol iawn;
Cadw'th lygaid tu a'r ddaear,
Cadw'th feddwl tu a'r lan,
Lawr a'r corph i waelod honno,
Fry a'r enaid yn y man.

11 Pan ddelo'm llais i gyda'r awel
Yna dros y moroedd maith,
Ti 'nabyddi'r llais a glywaist
Yn Bethesda g'nifer gwaith;
A chan roi ochenaid ddwfwn,
A'r dw'r fel perlau'n llifo i lawr,
Mi glywa'th lais yn dweud debygwn,
O! na bawn i yno 'nawr.

12 Bydd yn ddiddig, aros yna,
Dyma'r wlad y trigaf fi,
Nes caffwyf wŷs i fyn'd dros foroedd
Pellach nag yr aethost ti:
'Rwy'n hyderu'th gwrddyd eto
Ar gyffiniau'r gwledydd pell,
Nid dan ŵylo fel 'madawsom,
Ond mewn tymer lawer gwell.

REES LEWIS, ARGRAFFYDD, HEOL-FAWR, MERTHYR.